

Pecyn recriwtio

Rheolwr cymunedol (cyfnod mamolaeth)

Gwnewch gais am y swydd hon

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Sylwch fod recriwtio ar gyfer y swydd hon wedi'i ohirio oherwydd datblygiadau gyda COVID-19. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl hon, neu sut i wneud cais, e-bostiwch Chris France, chris.france@theaudienceagency.org.

Ni fydd ceisiadau a gyflwynir ar ôl yr amser hwn yn cael eu hystyried. I gael gwybodaeth lawn am y swydd a manylion y cais, ewch i <http://www.theaudienceagency.org/our-people/vacancies/>.

Cysylltwch â ni drwy ffonio 0161 234 2956 neu e-bostiwch jobs@theaudienceagency.org os oes angen y wybodaeth hon arnoch chi mewn fformat arall.

Cefndir y rôl

Mae hwn yn amser cyffrous i'r Audience Agency, gan gefnogi bron i 1,000 o sefydliadau i ganolbwyntio mwy ar y gynulleidfa drwy'r Audience Finder, un o'r rhaglenni data diwylliannol mwyaf yn y byd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cadarnhau cyllid tan 2021/22 gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, Cyngor Celfyddydau Cymru a Creative Scotland ac mae rhaglen newydd o dwf a datblygu ar y gweill o ganlyniad.

Rydym nawr yn ceisio penodi dros gyfnod mamolaeth ar gyfer **Rheolwr Cymunedol** yng Nghymru ar gontract 6 mis i reoli a datblygu cymuned o ddefnyddwyr yng Nghymru a gwneud y gorau o'r gwasanaethau am ddim Audience Finder a'n hystod gynyddol o welliannau a chefnogaeth y telir amdanynt.

Crynodeb y rôl

Bydd y Rheolwr Cymunedol yn helpu ein cleientiaid yng Nghymru i ddefnyddio Audience Finder a'r portffolio cynnyrch ehangach, i'w helpu i gael eu cymell yn fwy gan ddata yn eu hagwedd at eu gwaith.

Mae'r rôl hon yn canolbwyntio ar reoli cyfrifon y sefydliadau allweddol sy'n croesi sawl ffurf yn gelfyddydol yng Nghymru, i gynhyrchu incwm, mewnweddiad a dylanwad, cyflwyno sesiynau Audience Finder yn ymarferol i unigolion a grwpiau a chasglu adborth gan y gymuned i gyfleu anghenion datblygu cynnyrch / gwasanaeth, gan gyfeirio cyfleoedd eraill at gydweithwyr lle bo hynny'n berthnasol.

Mae hon yn rôl tymor byr wedi'i thargedu a'i ffocysu, sy'n gofyn am ddealltwriaeth gadarn o'r defnydd o ddata a mewnweddiad, strategaeth y gynulleidfa, eiriolaeth a marchnata tactegol, yn ogystal â dull gafaelgar. Mae'n hynod ymgynghorol a chydweithredol, gan weithio gyda chleientiaid a chydweithwyr TAA i fabwysiadu, addasu a chymhwyso cynhyrchion TAA i'ch portffolio cyfrifon.

Trefniant gweithio

Rydym yn gwahodd ceisiadau am ddeiliad swydd rhan amser gyda sgiliau iaith Gymraeg lefel 2 neu'n uwch, naill ai ar gontract 3 neu 4 diwrnod yr wythnos am 6 mis cychwynnol. Mae'r rôl ar gael ar gontract yn y cartref gyda gwaith swyddfa achlysurol (yn Llundain neu Fanceinion), ond bydd yn cynnwys teithio'n rheolaidd i ymweld â chleientiaid a chyllidwyr.

Disgrifiad swydd a Manyleb person

Bydd rôl y Rheolwr Cymunedol yn rheoli cyfrifon sefydliadau celfyddydol allweddol yng Nghymru ac yn cefnogi cyflwyno contract Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb i godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r rhaglen am ddim Audience Finder, wedi'i hariannu, gyda thargedau perfformiad yn adlewyrchu hyn.

Meysydd canlyniad allweddol

- Datblygu a rheoli perthnasoedd ag ystod benodol o gleientiaid unigol a grwpiau defnyddwyr fel rhan o bortffolio cyfrifon sefydledig.
- Cyflwyno defnyddwyr a grwpiau defnyddwyr i Audience Finder / gwasanaethau eraill sy'n seiliedig ar gynnyrch am ddim ac y telir amdanynt.
- Goruchwylio sefydlu ac anwythiad Audience Finder, gan gynorthwyo defnyddwyr i gymhwyso offer a mewnwelediadau lle bo hynny'n briodol trwy sesiynau ymarfer, a gweithgareddau hyfforddi neu gefnogi arall.
- Helpu i roi sefydliadau newydd ar Audience Finder.
- Nodi cyfleoedd ar gyfer gwerthiannau pwrpasol pellach gyda chleientiaid yn cyfeirio rhagolygon at gydweithwyr yn y sefydliad ehangach.
- Gweithio'n agos gyda staff uwch eraill i alluogi datblygiad deinamig cynhyrchion a gwasanaethau ar gyfer y sector.
- Sicrhau profiad defnyddiwr rhagorol trwy drin cyfrifon arbenigol, cyflenwi cynnyrch a rheoli cynnyrch.
- Cyflwyno mewnwelediad mewn ystod o leoliadau mewn ffordd atyniadol ac addysgiadol, gan gynnwys mewn cyfarfodydd cleientiaid a digwyddiadau TAA.
- Cyflwyno sesiynau cymorth un i un mewn perthynas â gweithrediad mewnwelediad, fel sesiynau ymarferol Audience Finder.
- Cynrychioli TAA mewn rhwydweithiau a phartneriaethau allweddol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r sector neu ddaearyddol lle mae'n arwain.

The Audience Agency fel sefydliad dysgu

Mae'n ofynnol i'r holl staff:

- Cymryd rhan weithredol ym mhob cynllunio tîm, dysgu a hyfforddiant
- Hyfforddi aelodau eraill o'r tîm ymchwil yn ôl yr angen
- Rhannu'n fewnol y mewnwediadau a'r dysgu a gafwyd o brosiectau ymchwil a gwaith cleientiaid
- Cyfrannu at ddatblygu dull gweithio traws-swyddogaethol, cydweithredol
- Bod yn ymwybodol o bolisiau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth TAA a gweithredu ynddynt
- Bod yn ymwybodol o werthoedd TAA a chynnal gweithgareddau yn eu hysbryd
- Yn benodol i hyrwyddo nodau TAA ymhellach i ganolbwyntio mwy ar y defnyddiwr

Manyleb Person

Gwybodaeth a Phrofiad

- Profiad o ddatblygiad cynulleidfa yn y sector celfyddydau, diwylliannol neu dreftadaeth, a'i ddealltwriaeth ohono, gan gynnwys arfer da.
- Dealltwriaeth helaeth o anghenion sefydliadau diwylliannol ac yn benodol gweithwyr marchnata, ymgysylltu proffesiynol a rheolwyr cyffredinol.
- Profiad o werthu / rheoli cyfrifon.
- Gwybodaeth am y materion sy'n wynebu sector diwylliannol y DU.
- Rhwydwaith proffesiynol cryf a phroffil personol
- Deall methodoleg ac arferion ymchwil defnyddwyr
- Gwybodaeth ymarferol o offer a chynhyrchion Audeince Finder yn ddymunol

Sgiliau a Phriodoleddau

- Gallu amlwg i sefydlu a rheoli prosiectau.
- Sgil trefnu rhagorol, gan gynnwys sylw i fanylion.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar
- Gallu amlwg i ddatblygu a meithrin perthnasoedd ag ystod o unigolion, grwpiau a sefydliadau.

- Y gallu i arwain, dylanwadu, cymell ac ysbrydoli unigolion a grwpiau.
- Y gallu i drefnu a blaenoriaethu llwythi gwaith cymhleth
- Y gallu i drafod contractau
- Yn dangos y gallu i gyrraedd targedau heriol.
- Y gallu i ddefnyddio canfyddiadau data, mewnwelediad ac ymchwil ar lefel dactegol a strategol

Rhinweddau Personol

- Yn hunanysgogol, yn chwilfrydig ac yn gallu gweithredu ar eich liwt eich hun
- Sgiliau Cymraeg (lefel 2 neu'n uwch)

Telerau ac Amodau

Cyflog, Tymor a Chontract

Cynigir y swyddi ar gyflog pro-rata £ 29,000 - £ 31,000 (pro rata) yn dibynnu ar sgiliau a phrofiad.

Lleoliad

Gall y swydd hon fod yn y cartref; ond bydd disgwyl iddynt fynychu cyfarfodydd tîm a sesiynau briffio rheolaidd yn swyddfeydd Llundain a Manceinion. Disgwylir i'r deiliad swydd gael ei leoli mewn Hwb cyfarfod yng Ngogledd a De Cymru o leiaf ddwywaith y mis. Mae cyllideb deithio flynyddol ar gael.

Oriau

Rydym yn chwilio naill ai am ddeiliad swydd rhan amser (3 neu 4 diwrnod / 24-32 awr yr wythnos) gyda sgiliau iaith Gymraeg lefel 2 neu'n uwch. Yr oriau cyferth ag amser llawn safonol yw 5 diwrnod (35 awr yr wythnos) y gellir eu gweithio'n hyblyg i gydbwysu anghenion cleientiaid a hydrinedd y llwyth gwaith. Yr oriau swyddfa graidd yw rhwng 10.00am a 6.00pm bob dydd. Mae'r diwrnod gwaith arferol yn cynnwys awr i ginio (di-dâl). Bydd yr Audience Agency yn ceisio bod yn hyblyg ac yn ddeallus wrth ganiatáu i staff fabwysiadu oriau sy'n addas i amgylchiadau unigol cyn belled nad yw'r oriau hyn yn effeithio ar effeithiolrwydd gwaith.

Gwyliau

Yr hawl i wyliau yw 25 diwrnod y flwyddyn ynghyd â gwyliau Cyhoeddus / Banc (pro rata am ran-amser).

Pensiwn

Mae gan yr Audience Agency gynllun pensiwn gweithle yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol. Byddwch yn cael manylion y cynllun hwn yn uniongyrchol gan y darparwr pensiwn. Mae cofrestrriad awtomatig i'r cynllun hwn yn cychwyn ar ôl tri mis mewn cyflogaeth. Gall gweithwyr benderfynu tynnu'n ôl o'r cynllun hwn os dymunir.